

TEITHIO CYMUNED  
**SIR Y FFLINT**



# Gwasanaeth Ffonio a Theithio

Bydd y gwasanaeth yn darparu  
Cymorth I deithio i Apwyntiadau Meddyg  
Teulu, Apwyntiadau I'r Ysbyty, Apwyntiadau  
eraill sy'n berthnasol i iechyd



TEITHIO CYMUNED  
SIR Y FFLINT



# Gwasanaeth Ffonio a Theithio

Bydd Uned Trafnidiaeth Integredig Cyngor Sir y Fflint yn cyflwyno Gwasanaeth Ffonio a Theithio i breswylwyr Sir y Fflint. Bydd y gwasanaeth newydd yn wasanaeth ymateb i'r galw, gan ddarparu cludiant hygyrch o ddrws i ddrws i'r cyhoedd sy'n cael trafferth teithio ar wasanaethau cyhoeddus cyfredol.

## Bydd y gwasanaeth yn darparu cymorth i deithio i:

- Apwyntiadau Meddyg Teulu • Apwyntiadau i'r Ysbyty • Apwyntiadau eraill sy'n berthnasol i iechyd

## Mae'r gwasanaeth ar gael i:

### • Aelodau yn unig

- Bydd ffi Tanysgrifiad Blynyddol o **£10 yn berthnasol** (gellir gwneud taliadau dros y ffôn neu drwy siec yn daladwy i Gyngor Sir y Fflint).
- Bydd Ffi ychwanegol ar gyfer **pob taith ar sail 45 ceiniog y filltir**.

## Gofynnir i deithwyr:

- Roi **hysbysiad o leiaf 24 awr o deithiau unigol** (fodd bynnag byddwn yn ceisio cyflenwi teithiau sydd ar sail cais byr rybudd lle bo'n bosibl).

## Wrth gofrestru i ddechrau, bydd gofyn i aelodau ateb y cwestiynau canlynol er mwyn bodloni'r meini prawf i ddefnyddio'r gwasanaeth:

- Lle ydych chi'n byw?
- Lle ydych chi eisiau teithio iddo?
- Beth yw pwrpas y daith?
- Ai hwn yw'r tro cyntaf yr ydych wedi gorfod gwneud y daith hon?
- A oes gennych gar neu a oes car ar gael i chi?
- A allwch chi ddefnyddio gwasanaethau bws?
- Os ydych chi'n mynd am apwyntiad i'r ysbyty, a ydych yn gymwys i ddefnyddio'r Gwasanaeth Cludiant Claf Gwasanaeth Ambiwlans Cymru?

## Dyma enghraifft o gostau teithiau ar gyfer teithiau dychwelyd:

Higher Kinnerton i Ganolfan Feddygol Hob **£2.70**

Llanfynydd i Ysbyty Maelor Wrecsam **£5.40**

Northop Hall i Feddygfa Bradley, yr Wyddgrug **£4.50**

Chwitfordd i Ysbyty Treffynnon **£3.15**



I wneud cais i fod yn aelod o'r Gwasanaeth Ffonio a Theithio Cymunedol,  
cysylltwch â'n Canolfan Gyswilt Strydwedd:

Ffôn 01352 701234 (rhwng 09.00 tan 17.00 dydd Llun- dydd Gwener)